

Siarter Urddas yr Eglwys yng Nghymru

Astudiaeth Feiblaidd A

Mathew 7.12

‘Pa beth bynnag y dymunwch i eraill ei wneud i chwi, gwnewch chwithau felly iddynt hwy; hyn yw’r Gyfraith a’r proffwydi.’ (Mathew 7.12)

Ymgorffori moeseg gadarnhaol mewn ffordd chwyldroadol

Mae’r ddysgeidiaeth gofiadwy ac enwog hon - y ‘Rheol Aur’ fel y’i gelwir yn aml - i’w chlywed gan Iesu tua diwedd y Bregeth ar y Mynydd ac mae’n debyg i lawer o draddodiadau amrywiol, gan gynnwys ysgrifau Iddewig a Christnogol cynnar, athroniaeth Roegaid a ffynonellau paganaidd amrywiol. Fodd bynnag, fel y noda’r ysgolhaig ar y Testament Newydd, R.T. France, mae’r ffocws fel arfer yn un negyddol - rhywbeth fel “peidiwch â gwneud i eraill yr hyn na fydddech chi am iddyn nhw ei wneud i chi.”¹ Hynny yw, os nad ydych chi eisiau derbyn ymddygiad gwael gan eraill - fel dicter, anffyddlondeb, anonestrydd, dial, casineb, rhagrith, calon galed, trachwant, cael eich barnu ac yn y blaen - peidiwch felly â gorfodi hyn ar y sawl sydd o’ch cwmpas.

Yn gynharach yn y Bregeth mae Iesu’n siarad yn hir am bob un o’r ymddygiadau negyddol hyn², ond nid yw’n dweud yn syml “peidiwch â gwneud X”. Yn hytrach, mae’n dweud “peidiwch â gwneud X... gwnewch Y yn lle hynny.” Er enghraifft, yn lle bod yn ddig wrth frawd neu chwaer, mae’n galw ar ei ddilynwyr i gymodi â’r sawl sy’n teimlo ei fod wedi cael cam (5:21-26); yn lle ceisio dial ar elyn, dylent wneud daioni iddo (5:38-42); yn lle cael eu hysu gan gasineb tuag at elynion, dylent garu eu gelynion a gweddïo drostynt (5:43-47). Drwy glywed ac ufuddhau i foeseg amgen Iesu y mae teyrnas nefoedd yn cael ei gweld a’i gwneud yn hysbys.

Felly, mae Iesu yn ein galw ni i geisio ffyrdd anrhydeddus a bod “yn berffaith ... fel y mae eich Tad nefol yn berffaith” (5:48). Gall hyn ymddangos fel moeseg hynod anodd, y tu hwnt i allu pechaduriaid sydd wedi torri ac yn ffaeledig, ond mae’r syniad yn hynod gadarnhaol. Mae *teleios*, y gair Groeg sydd fel arfer yn cael ei gyfieithu fel ‘perffaith’, yn awgrymu mwy na dim ond ‘ticio bocsys’. Yn hytrach, mae’n golygu cyflawniad, aeddfedrwydd ac uniondeb llwyr ag ewyllys a phwrpas Duw sy’n anffaeledig hael i’r sant a’r pechadur fel ei gilydd (5:45). Wrth ddangos yr agwedd elusenol, gwbl haelionus hon tuag at eraill, rydym ni’n dod yn “blant [i’n] Tad sydd yn y nefoedd” (5:45).

Felly, nid dim ond dysgu moeseg sy’n seiliedig ar waharddiadau y mae Iesu - “peidiwch â gwneud hyn” - ond mae’n foeseg sy’n seiliedig ar fod yn gadarnhaol - “gwnewch hyn yn

¹ R.T. France, *The Gospel of Matthew* (Grand Rapids: Eerdmans, 2007), tt. 283-4.

² Dyma’r cyfeiriadau: dicter (Mathew 5:21-26); godineb (5:27-32); llwon (5:33-37); dial (5:38-42); casineb (5:43-48); rhagrith (6:1-8; 16-18); calon galed (6:15); trachwant (6:19-21, 24-25); barnu eraill (7:1-5).

lle hynny". Mae'n hyrwyddo ffordd o fyw a bod sy'n drawiadol newydd, ffordd sy'n cyflwyno dull gwahanol iawn i ymateb greddfoll ein hymennydd sy'n dweud wrthym am 'ddianc neu ymladd' pan gawn ein herio neu ein bygwth. Pan fo Iesu'n siarad yn y Gwynfydau am wynfydrwydd y tlodion yn yr ysbryd, y rhai sy'n galaru, y rhai addfwyn, y rhai sy'n newynu a sychedu am gyfiawnder, y rhai trugarog, y rhai pur eu calon, y tangnefeddwyr, y rhai a erlidiwyd yn achos cyfiawnder (Mat. 5:3-12), nid dim ond *dychmygu* sefyllfa wahanol y mae, ond, fel y mae naratif dilynol yr efengyl gyfan yn dangos, mae'n *ymgorffori'r* ffordd newydd hon, yn gyfan gwbl, trwy dderbyn yn ufudd y ffordd a bennwyd ar ei gyfer, sef ffordd y groes. Yno - mewn cywilydd, dioddefaint ac aberth - y caiff ei gyhoeddi'n Frenin (Mathew 27: 29, 27:37). Yn dirion, ond yn rymus, dan goron ddrain, mae Iesu yn ein hatgoffa bod y bri, y dylanwad a'r parch sy'n gysylltiedig fel arfer â phŵer, awdurdod a dominyddiaeth ddynol yn cael eu tanseilio, eu hailddiffinio a'u trawsnewid ar y groes gan y llywodraethwr hwn o'r teyrnasiad a ddaw.

Yr alwad i ddisgyblaeth radical, gostus

Mae'r brenin annhebygol, anghonfensiynol hwn yn galw ar fenywod a dynion i ddod yn bartneriaid yn y fenter newydd hon, i edifarhau trwy droi cefn ar eu bywyd amheus blaenorol a wynebu'r goleuni a ddaw a gweld eu cysgodion wedi'u taflu o'u holau. Fe'n gelwir, fel hwy, i gydnabod bod "teyrnas nefoedd wedi dod yn agos" yn Iesu (Mathew 4:17). Ar un ystyr, yn wir mae hyn yn realiti newydd sbon sy'n torri i mewn o'r nefoedd ei hun i oresgyn yr hen deyrnas o bechod a marwolaeth. Ond ar olwg arall, nid yw hyn yn ddim llai na doethineb hynafol Israel yn cael ei gwireddu'n drawiadol yn y Meseia. Tra bod Israel wedi parhau yn gyson i fethu â byw i fyny i'w hunaniaeth fel pobl gyfamodol, etholedig Duw ac felly wedi dod yn destun barn broffwydol lem, dyma un sy'n cyflawni'r gyfraith a'r proffwydi, un y mae ei gyfiawnder yn adlewyrchu nid safonau dynol cyfaddawdol ond bywyd y nefoedd ei hun (5:17-20).

Mae'r syniad hwn o Iesu'n cyflawni'r ffordd o fyw y galwyd pobl Dduw ati, yn dod â ni yn ôl at y Rheol Aur oherwydd, meddai Iesu, dyma hanfod y gyfraith a'r proffwydi (7:12). Ymhellach, mae'r rheol hon yn gymorth i werthfawrogi nad yw'n cyhoeddi moeseg negyddol – "peidiwch â gwneud X fel na fyddant yn gwneud X i chi" – ond yn hytrach yn annog agwedd gadarnhaol iach – "rydych chi'n dangos yn eich bywyd eich hun y gorau y byddech chi'n hoffi i eraill ei wneud i chi". Felly, yn ein perthynas â'n gilydd rydym yn cael ein galw i osod o'n blaen ffordd o fyw Iesu ei hun, i ddychmygu sut yr hoffem i'n cymdogion ein trin ni. Ar ôl y ddysgeidiaeth a gyflwynir gan Iesu yn y Bregeth ar y Mynydd, byddai hyn yn golygu ysbryd o gymod, ffyddlondeb, gwirionedd, haelioni, cariad, tryloywder a charedigrwydd. Ond mae'n fwy na dim ond *dychmygu* sut y gallai bywyd o'r fath fod, fe'n gelwir i *amlygu'r* bywyd hwnnw a'i wneud yn hysbys yn nyfnder ac ansawdd ein perthynas ag eraill.

Dydy hynny ddim yn golygu aros nes bod Colin Cas o'r diwedd yn anarferol o garedig fel y gallaf fi ymateb yn garedig, neu aros i Catrin Cybydd fod yn anarferol o hael fel y gallaf

innau ymateb yn ôl yn hael. Mae Iesu, yn y rheol aur, yn dweud wrthyf nad ar y dyn cas na'r cybydd, yn gyntaf oll, y mae'r cyfrifoldeb ond arnaf *fi*. I bwysleisio'r pwynt galem ddweud, "gwnewch **chi** i eraill fel y dymunech i eraill ei wneud i chi." Mae hynny'n gofyn am lawer o hunan-fyfyrion ar fy ymddygiad fy hun, gan ddiolch am y ffyrdd yr wyf yn dangos caredigrwydd, cyfiawnder a thangnefedd Iesu, gan hefyd fyfyrion ar y ffyrdd yr wyf yn amharchu, yn bychanu neu'n defnyddio eraill, er fy mantais fy hun.³

Felly, rwy'n cael fy ngalw i ddangos y ffrwyth da sy'n arwydd o'r daioni y tu mewn, gan gydnabod y bydd methu â gwneud hynny yn arwain at farn gan Dduw sy'n deall cyfrinachau fy nghalon a ffynhonnell fy nghymhellion (Mathew 7:15-23). Gall y cyfrifoldeb personol a'r atebolrwydd personol hwn fod yn gyfrwng i lunio diwylliant yr eglwys ehangach, er da, neu er drwg.⁴ Trwy beidio â cheisio'r ffrwythau da y mae Iesu yn eu disgwyl, gall hyn fod yn llai na Christnogol, neu hyd yn oed yn wrth-Gristnogol. Mae'r apostol Paul yn dangos y gwahaniaeth hwn yn amlwg wrth gyferbynnu "gweithredoedd y cnawd ... puteindra, amhurdeb, anlladrwydd, eilunaddoliaeth, dewiniaeth, cweryla, cynnen, eiddigedd, lldio, ymgiprys, rhwygo, ymbleidio, cenfigennu, meddwi, cyfeddach, a phethau tebyg" (Galatiaid 5:19-21) – gyda "ffrwyth yr Ysbryd ... cariad, llawenydd, tangnefedd, goddefgarwch, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, addfwynder, a hunanddisgyblaeth." (Galatiaid 5:22-23).

Cysylltu Rheol Aur Iesu â Siarter Urddas yr Eglwys yng Nghymru

Diolch byth, dydyn ni ddim wedi'n traddodi'n ddiobaith i hen fywyd y cnawd gan fod modd i ffrwyth yr Ysbryd gael ei amlygu ym mhob un ohonom. Fel y dywed Siarter Urddas yr Eglwys yng Nghymru,

Mae'r ysgrythurau hefyd yn dysgu bod newid yn bosibl: mae gan y gair Groeg, metanoia, a gyfieithir yn aml fel edifeirwch, ystyr gweithredol. Mae bod yn edifar yn benderfyniad i newid meddwl, yn adduned i beidio â chyfeiliorni eilwaith, gan alw pob un ohonom i gymod ac adferiad.⁵

³ Mae myfyrion, gyda diolchgarwch, ar y bendithion a roddir i mi bob dydd, yn ogystal ag edifarhau am y ffyrdd rydw i wedi methu â bod yn fendith i eraill yn ddisgyblaeth ddofn, weddigar y mae llawer o Gristnogion yn ei hymarfer yn ddyddiol. Wedi'i ysbrydoli gan Ymarferion Ysbrydol Sant Ignatius o Loyola, gall yr 'Examen o'r Ymwybyddiaeth' hwn ein helpu i ddirnad yr Ysbryd Glân yn datgelu i ni'r ffyrdd yr ydym yn dewis cydweithredu ag ewyllys Duw i ni a'r ffyrdd yr ydym yn troi i ffwrdd i ddilyn ein llwybrau pechadurus ein hunain. Gall ymrwymo ein hunain i weddio'r Examen ein helpu i adnabod ein hunain yn well, i ddiolch am ein cryfderau ac edifarhau am ein gwendidau, ac felly, gyda chymorth yr Ysbryd, cael ein trawsnewid, ein harwain i gyflawnder y bywyd y mae Iesu yn ei roi (Ioan 10:10). Rhoddir patrwm ar gyfer gweddio'r Examen yn llawlyfr gweddi dyddiol yr Eglwys yng Nghymru *Beunydd gyda Duw / Daily with God* (Caerdydd: Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru, 2024).

⁴ Gweler adroddiad 2025 y Comisiwn Athrawiaethol Sefydlog, o'r enw 'Cerdded mewn Didwylledd: Myfyriaeth Ddiwinyddol ar Ddefnyddio a Chamddefnyddio Awdurdod Ysbrydol', t. 23. Mae'r adroddiad ar gael [yma](#).

⁵ Yr Eglwys yng Nghymru, *Siarter Urddas*, t.1.

Yn ddiamod, mae'r Siarter yn adleisio Rheol Aur Iesu wrth ddweud bod parchu lles ein gilydd yn ddisgwyliedig:

Mae gan bawb yr hawl i gael eu trin gydag urddas a pharch ac mae hyn yn golygu bod gan bawb ddyletswydd a chyfrifoldeb hefyd i drin eraill gyda'r un urddas a pharch.⁶

Mae hefyd yn ystyried yr effaith ddifaol a gwanychol o beidio â bodloni'r safon sylfaenol hon ar gyfer ein bywyd cyffredin:

Mae trin pobl mewn modd sy'n anghwrtais ac yn ddigywilydd mewn unrhyw ffordd neu sy'n achosi niwed yn tanseilio urddas yr unigolyn yn ogystal â bywyd a gweinidogaeth yr eglwys gyfan. Bydd perthynas wael yn gwneud i bobl deimlo eu bod yn cael eu tanbrisio a theimlo'n anhapus. Gallant achosi gofid, effeithio ar les corfforol a meddyliol, a chael effeithiau andwyol ar gydberthnasau cymdeithasol.⁷

Nid yw hynny'n golygu ein bod yn osgoi beirniadaeth sy'n cael ei mynegi'n ystyriol ac yn adeiladol, ond dylai wneud i ni fyfyrion ofalus ar y defnydd (neu'r camddefnydd) a wnawn o'r pŵer a roddir i ni yn ein bywyd fel eglwys. Cyn sylwi a nodi diffygion mewn eraill dylem fod yn effro i'n diffygion ein hunain a allai fod yn llawer mwy na'r methiannau a welwn mewn eraill (Mathew 7:1-5). Ymhellach, o ran ein polisïau a'n gweithdrefnau sefydliadol ein hunain, mae angen i ni gadw at y safonau uchaf o ran diogelu, yn ogystal â sicrhau bod cwynion, chwythu'r chwiban a phrotocolau disgyblu yn cael eu cynnal. Dylai ein prif ddyletswydd gofal fod tuag at ddioddefwyr camwedd yn hytrach na diogelu enw da'r pwerus.

Nid yw Iesu yn gosod ei Reol Aur fel model o 'ymddygiad gorau' y dylwn ei fabwysiadu i geisio cydymffurfio, creu argraff ar eraill, neu geisio ffafr arbennig. Na, hon yw'r safon sylfaenol ar gyfer trefnu fy holl agwedd at fywyd a'm hymddygiad bod dydd, a phob munud: **“Pa beth bynnag** y dymunwch i eraill ei wneud i chwi, gwnewch chwithau felly iddynt hwy.” Felly fel y dywed y Siarter Urddas mor gywir,

Mae'r hawl i gael eich trin gydag urddas a pharch yn cwmpasu pob agwedd ar ein bywyd eglwysig gan gynnwys y tu allan i'r gweithle nodweddiadol, er enghraifft, wrth weithio gyda'r gymuned, yng ngwasanaethau'r eglwys, mewn cyfarfodydd busnes a digwyddiadau cymdeithasol yn ymwneud â gwaith neu wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.⁸

Ffurio cymeriad yn ôl haelioni Duw yng Nghrist

Nid dim ond mater o 'gyflawni er mwyn sioe' yw cadw at y Siarter Urddas - mae'n ymwneud â ffurfio ein *cymeriad* fel pobl sy'n gwerthfawrogi, yn parchu ac yn anrhydeddu

⁶ Yr Eglwys yng Nghymru, *Siarter Urddas*, t.1.

⁷ Yr Eglwys yng Nghymru, *Siarter Urddas*, t.1.

⁸ Yr Eglwys yng Nghymru, *Siarter Urddas*, t.1.

ein gilydd gan ddangos yr egwyddorion hyn yn ein holl ymwneud ag eraill. Byddai llawer o sefydliadau seciwlar yn hapus i gefnogi llawer o Siarter Urddas yr Eglwys yng Nghymru yn eu bywydau eu hunain. Fodd bynnag, mae'r Eglwys yn canfod yn yr Hen Destament a'r Testament Newydd foeseg unigryw sy'n canolbwyntio ar drugaredd helaeth a pharch hael at ein gilydd, gan fod yn effro i gamddefnydd o bŵer - sefyllfa y mae Iesu yn ei chydabod mor eglur a dwys.⁹

Yn y pen draw, ein safon yw Iesu ei hun yn ei bryder tosturiol am ffyniant y gorthrymedig, ei ymrwymiad di-ofn i wirionedd (er gwaethaf y gost) a'i barodrwydd i ddioddef dros achos cyfiawn. Wrth greu dynion a menywod, mae Duw yn datgan, "Gwnawn ddyn ar ein delw, yn ôl ein llun ni. (Genesis 1:26; gweler Doethineb 2:23; Sirach 17:3), gan drwy hynny roi urddas cynhenid, sy'n rhodd gan Dduw, i bob bod dynol sef sail yr urddas y'n galwyd i'w ddangos y naill at y llall. Ymhellach, fel pobl a wnaed ar ddelw ddwyfol, gwelwn yr hunaniaeth hon wedi'i hymgorffori'n llawn yn Iesu Grist sydd, yn wahanol i ni, nid yn 'unig' ar ddelw Duw, ond yn hytrach yr union ddelwedd ei hun. Fel yr ysgrifenna Paul, ef ei hun yw "delw'r Duw anweledig, cyntaf-anedig yr holl greadigaeth" (Colosiaid 1:15; gweler 2 Corinthiaid 4:4; Doethineb 7:26). Mae'n dangos i ni wedyn gwir ystyr bod yn wirioneddol ddynol.

Mae'r foeseg sylfaenol y mae Siarter Urddas yr Eglwys yng Nghymru yn ceisio ei disgrifio yn cael ei hysbrydoli yn Nuw ei hun. Mae Mathew yn gosod Iesu yn rhoi'r Rheol Aur yn syth ar ôl ei ddysgeidiaeth ar ddyfalbarhad mewn gweddi: bydd y rhai sy'n gofyn yn derbyn; y rhai sy'n ceisio yn cael, a'r rhai sy'n curo yn cael drws agored (7:7-8). Os yw hyn yn wir mewn perthynas ddynol – fel y mae rhieni yn rhoi rhoddion da i'w plant – gymaint mwy y bydd y Tad nefol yn rhoi'n helaeth i'r rhai sy'n galw arno (7:9-11). Yr haelioni dwyfol rhyfeddol hwn – haelioni llawer mwy na chyfyngiadau creaduriaid dynol sy'n tueddu at ddrygioni – sy'n darparu cyd-destun uniongyrchol i'r Rheol. Felly mae bod yn garedig wrth Colin *cyn* iddo fod yn garedig i mi, a bod yn elusengar tuag at Catrin *cyn* iddi fod felly tuag ataf fi yn gosod 'diwylliant' unigryw y gymuned Gristnogol ddilys.

Fel y dywed Iesu dro ar ôl tro yn yr efengylau, mae ei ffordd ef yn gyfyng a chul (Mathew 7:13-14), mae'n galw am hunanaberth sy'n mynd yn groes i ffordd hawdd y byd. Tra bod moeseg ddisafon a hunanfawrygus y byd yn arwain at ddinistr, bydd y ffordd gyfyng, sy'n llai poblogaidd, yn arwain at fywyd. Yn ein bywyd cyffredin fel Eglwys gadewch i ni geisio'r ffordd honno yn ein hagwedddau a'n gweithredoedd a thrwy hynny anrhydeddu ein gilydd fel chwiorydd a brodyr annwyl a chyd-aelodau o gorff Crist - y croeshoeliedig, yr atgyfodedig a'r gwynfydedig.

Cwestiynau myfyrdod

1. Ydych chi'n ceisio defnyddio Rheol Aur Iesu yn eich bywyd?
2. Ble ydych chi'n gweld y Rheol Aur ar waith mewn eraill?

⁹ Yr Eglwys yng Nghymru, *Siarter Urddas*, t.1.

3. Pam ei bod hi'n bwysig fod Iesu yn ein galw ni i fod yn *rhagweithiol* wrth wneud daioni i eraill, yn hytrach nag aros i eraill gymryd y cam cyntaf?
4. Myfyriwch ar enghraifft ym mywyd yr Eglwys pan nad oedd y Rheol Aur yn cael ei chadw, gyda Christnogion yn methu ag ymgorffori yn eu bywydau y safonau y mae Iesu yn eu disgwyl. Beth sydd angen digwydd er mwyn newid hyn a thrwy hynny gyfosod ein hunain yn debycach i batrwm teyrnas nefoedd?